

**PRIFYSGOL BANGOR**

**Polisi a Gweithdrefnau Cofnodion Troseddol**

<b>Adolygwyd</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Pwrpas yr adolygu</b>	<b>Dyddiad Adolygu</b>
1	Chwefror 2009	Cyhoeddiad cyntaf Polisi a Gweithdrefnau Cofnodion Troseddol gan yr Ysgol Addysg	2012
2	Tachwedd 2012	Cyhoeddiad cyntaf Polisi a Gweithdrefnau Cofnodion Troseddol gan yr Ysgol Gwyddorau Iechyd	2015
3	Medi 2015	Mae'r Polisi a'r gweithdrefnau wedi'u hadolygu oherwydd y newidiadau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Uno'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol i ffurfio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.</li> <li>• Newidiadau i ddeddfwriaeth yn ymwneud â diogelu Grwpiau Agored i Niwed, gwiriadau cofnodion troseddol ac amddiffyn rhyddid.</li> <li>• Newidiadau i ganllawiau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yr Adran Addysg a'r Swyddfa Gartref.</li> <li>• Newidiadau trefniadol i'r gwasanaeth datgelu.</li> <li>• Newidiadau i fframwaith y Coleg.</li> </ul>	2018
4	Chwefror 2019	Mae'r Polisi a'r gweithdrefnau wedi'u hadolygu oherwydd y newidiadau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu'r Coleg Gwyddorau Dynol a chyfuno Polisiâu a Gweithdrefnau Cofnodion Troseddol yr Ysgolion academiaidd sydd yn rhan o'r Coleg</li> <li>• Sefydlu'r Uned Rhaglenni Dysgu ar Leoliad gyda'r nod o safoni gweithdrefnau a phrosesau</li> </ul>	2020
5	Awst 2020	Mae'r Polisi a'r gweithdrefnau wedi'u hadolygu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ei gwneud yn ofynnol i wirio cofnodion troseddol y tu allan i'r Deyrnas Unedig dim ond pan oedd unigolyn yn 10 oed neu'n hŷn pan oedd yn byw neu'n gweithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig (3.8).</li> <li>• Ychwanegu gwasanaeth GBY KnowYourPeople fel ffordd gymeradwy o gael gwiriadau cofnodion troseddol y tu allan i'r Deyrnas Unedig (4.4).</li> <li>• Ychwanegu, os caiff penderfyniad ei ohirio ar y sail bod angen gwybodaeth bellach, efallai y bydd y Panel Achos yn</li> </ul>	2021

		<p>gofyn am atal astudiaethau neu ohirio mynediad i'r cwrs (4.6).</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Tynnu Ymarfer Clinigol Uwch o'r rhestr o Raglenni Perthnasol (Atodiad 5)</li> <li>Nodi nad yw gwiriadau ar gyfer Presgripsiynu Anfeddygol yn berthnasol i staff y Bwrdd Iechyd sy'n dechrau o 2021 ymlaen</li> </ul>	
6	Ionawr 2024	<p>Mae'r Polisi a'r gweithdrefnau wedi'u hadolygu fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Newid i bolisi Prifysgol yn hytrach na pholisi Coleg.</li> <li>Diweddarau polisi, gweithdrefnau, a ffurflenni yn unol â newidiadau i reolau hidlo'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn sgil diwygio eithriadau adsefydlu troseddwr Tachwedd 2020</li> <li>Bellach dim ond ar gyfer hunanddatganiadau y mae cyfarfodydd panel ar gyfer rhaglenni cyn-gofrestru Iechyd yn ofynnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac mae Gwaith Cymdeithasol yn cynnal cyfarfodydd cyn gwneud y cynnig (4.2.4).</li> <li>Dylai gwiriadau troseddol tramor gwmpasu'r cyfnod preswyllo/cyflogaeth mewn gwlad arall (4.4.2).</li> <li>Bydd rheolau hidlo'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hystyried cyn i droseddau a gyflawnwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig gael eu hystyried (4.4.6)</li> <li>Egluro nad oes gan ymgeisydd yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad Panel Achos i argymhell i'r Pennaeth Derbyniadau y dylid canslo'r cais a, lle bo'n briodol, y dylid tynnu'r cynnig i astudio yn ei ôl (h.y. byddai apêl o'r fath yn cael ei gwneud yn unol â'r polisi derbyniadau) (4.6.4).</li> <li>Diweddarau'r weithdrefn ynghylch Addysg Gychwynnol Athrawon (4.7, 4.9)</li> <li>Ni fydd Panel Achos yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwr ddatgelu gwybodaeth am eu cofnod troseddol i drydydd parti (4.6.7).</li> <li>Cynnwys y defnydd o wiriadau Sylfaenol (1.3, 4.1.1, 4.5.2, 4.5.4)</li> <li>Mae'n bosibl y bydd y Cyfarwyddwr Cwrs/yr Arweinydd Rhaglen yn gofyn i ohirio astudiaethau hyd nes y cwblheir y gwiriadau cofnodion troseddol (4.9.3).</li> <li>Cynnwys yr angen i gynnal gwiriad newydd yn unol â chanllawiau sector-benodol. (4.16.1)</li> <li>Diweddarau'r rhestr o Raglenni Perthnasol (Atodiad 5).</li> <li>Nid oes angen gwiriadau cofnodion troseddol ar fyfyrwr presgripsiynu annibynnol (Atodiad 5).</li> <li>Newidiadau i strwythur ysgolion academiaidd ac adrannau gweinyddol.</li> </ul>	2026

Swyddog Polisi	Yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol	Cymeradwywyd Gan	Dyddiad
Rheolwr Gweinyddu Myfyrwyr (Lleoliadau, Cofnodion a Data)	Cofrestrwydd Academaidd	Pwyllgor Cydymffurfiaeth	13 Awst 2024

--	--	--	--

## CYNNWYS

<b>1.</b>	<b>Cwmpas a Phwrpas</b>	<b>4</b>
<b>2.</b>	<b>Diffiniadau</b>	<b>4</b>
<b>3.</b>	<b>Datganiad Polisi</b>	<b>4</b>
<b>4.</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>6</b>
4.1	Cymhwyster a lefel gwiriad cofnodion troseddol	6
4.2	Cynnig lle ar Raglen Berthnasol	6
4.3	Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)	7
4.4	Gwiriadau tu allan i'r Deyrnas Unedig	7
4.5	Ymateb i gofnod troseddol neu hunanddatganiad gydag euogfarnau, rhybuddion neu erlyniadau sydd yn yr arfaeth	8
4.6	Cyfarfod Panel Achos	10
4.7	Hysbysu Darparwyr Lleoliadau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)	11
4.8	Hysbysu darparwyr lleoliadau eraill (heblaw AGA)	12
4.9	Gweithdrefn os na dderbynnir gwiriadau Cofnodion Troseddol cyn dechrau lleoliad ar Raglenni Perthnasol	12
4.10	Cyflogaeth / Rhaglenni yn y Gweithle ac Ymchwil	12
4.11	Myfyrwyr sy'n troseddu tra maent yn y Brifysgol	12
4.12	Amau twyll hunaniaeth	12
4.13	Cadw gwybodaeth yn ôl	13
4.14	Anghydfod ynghylch Datgeliadau	13
4.15	Cyfeiriadau at y DBS	13
4.16	Hyd dilysrwydd gwiriad cofnodion troseddol	13
<b>5.</b>	<b>Ffioedd</b>	<b>13</b>
<b>6.</b>	<b>Polisiau a Gweithdrefnau Perthnasol Prifysgol Bangor</b>	<b>13</b>
<b>7.</b>	<b>Adolygu</b>	<b>14</b>
	<b>ATODIAD 1</b> Diffiniadau a Therminoleg	<b>15</b>
	<b>ATODIAD 2</b> Cyhoeddiadau a Deddfwriaeth Allweddol	<b>17</b>
	<b>ATODIAD 3</b> Cysylltiadau'r We	<b>18</b>
	<b>ATODIAD 4</b> Dulliau o Wneud Cais i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	<b>20</b>
	<b>ATODIAD 5</b> Crynodeb ynghylch math a lefel y gwiriadau sy'n ofynnol ar gyfer pob Rhaglen Berthnasol	<b>22</b>

## 1. Cwmpas a Phwrpas

### 1.1 Amlinellir y canlynol yn y ddogfen hon:

- Y polisi ar ddefnyddio gwiriadau cofnodion troseddol a defnyddio'r *Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd* (DBS).
- Y polisi ar ddelio â myfyrwyr a darpar fyfyrwyr gyda chofnodion troseddol a rhai a waherddir rhag gweithio gyda *Grwpiau Agored i Niwed*.

### 1.2 Bydd y Brifysgol yn cynnal gwiriadau cofnodion troseddol ar ddarpar fyfyrwyr a/neu fyfyrwyr cofrestredig trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a thrwy awdurdodau y tu allan i'r Deyrnas Unedig dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- Pan fydd y rhaglen neu'r modiwl astudio yn cynnwys gweithgaredd sy'n dod â myfyrwyr i gysylltiad â phlant a/neu oedolion agored i niwed, a lle bernir bod y gweithgaredd yn gymwys i gael gwiriad dan y meini prawf cymhwysedd statudol perthnasol. Gallai'r cyswllt hwn fod yn ystod lleoliadau, fel rhan o waith ymarferol, yn ystod gwaith gwirfoddol (di-dâl) yn y Brifysgol neu fel rhan o broject ymchwil.
- Pan fydd y rhaglen astudio yn arwain at gofrestrriad gyda chorff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol a bod ar y corff perthnasol hwnnw angen gwiriad cofnod troseddol fel rhagamod ar gyfer mynediad ac ymarfer.

### 1.3 Mae'r Polisi'n gosod ymrwymiad i gynnal gwiriadau ar y lefel briodol yn unol â rôl sy'n gymwys ar gyfer Gwiriad Sylfaenol, Gwiriad Safonol neu Wiriad Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Gwiriad yn erbyn y Rhestr Waharddedig. Dylid darllen y Polisi ar y cyd â'r canllawiau statudol perthnasol ar gymhwystra.

<https://www.gov.uk/government/collections/dbs-eligibility-guidance#eligibility-guide>

Mae 4 math neu lefel o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

- **Gwiriad Sylfaenol** - mae hwn yn dangos manylion euogfarnau a rhybuddion amodol yr ystyrir eu bod 'heb eu disbyddu' o dan delerau *Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974*. Gellir defnyddio'r gwiriad sylfaenol at unrhyw ddiben, fodd bynnag ar gyfer rhai rolau bydd angen lefel uwch o wirio cofnodion troseddol.
- **Gwiriad Safonol** - mae hwn yn dangos euogfarnau a rhybuddion sydd wedi eu disbyddu a heb eu disbyddu, yn amodol ar hidlo. Mae hyn yn berthnasol i swyddi, proffesiynau, cyflogaeth, gweithgareddau, a thrwyddedau sydd wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn (Eithriadau) 1975, *Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974*, fel y'i diwygiwyd.
- **Gwiriad Manylach** - mae hwn yn dangos yr un pethau â gwiriad safonol ynghyd ag unrhyw wybodaeth a gedwir gan heddlu lleol a ystyrir yn berthnasol i'r rôl. Mae hyn yn berthnasol i rolau penodol, neu'r gweithgareddau penodol a gyflawnir o fewn rôl, sydd wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn (Eithriadau) 1975, *Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974* ac sydd hefyd yn dod o dan Reoliadau (Cofnodion Troseddol) *Deddf yr Heddlu 1997*.
- **Gwiriad manylach gyda rhestrau gwahardd** - mae hwn yn dangos yr un wybodaeth â gwiriad manylach, ond ar ben hynny mae'n cynnwys gwiriad yn erbyn rhestrau o'r rhai a waherddir rhag gweithio â phlant ac/neu oedolion, gan ddibynnu gyda pha grŵp y mae'r unigolyn yn gweithio. Dim ond i'r unigolion hynny sy'n cyflawni gweithgaredd a reoleiddir ac i nifer fach o swyddi a restrir yn Rheoliadau (Cofnodion Troseddol) *Deddf yr Heddlu 1997* y mae'r gwiriad hwn ar gael.

## 2. Diffiniadau

### 2.1 At ddibenion y Polisi hwn, darperir y diffiniadau a'r derminoleg yn **Atodiad 1**

## 3. Datganiad Polisi

- 3.1 Mae gan y Brifysgol ddyletswydd gofal i ddiogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed, yn bennaf rhai sydd o dan 18 oed ac 'oedolion sydd mewn perygl'. Mae sgôp y ddyletswydd gofal yn ymestyn ar draws holl weithgareddau'r Brifysgol, yn enwedig rhai y mae eu swyddogaeth yn cynnwys *Gweithgaredd a Reoleiddir* a/neu rai sydd mewn 'sefyllfa o ymddiriedaeth', gan gynnwys gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rhaglenni astudio a ddilyswyd gan y Brifysgol ac a ddarperir mewn partneriaeth gan ddarparwyr allanol.
- 3.2 Mae'r polisi'n rhoi ymrwymiad i gymryd pob cam rhesymol, gan gydymffurfio â deddfwriaeth, canllawiau statudol a pholisi Prifysgol Bangor, i leihau'r risg i bobl amhriodol fedru mynd at *Grwpiau Agored i Niwed*.
- 3.3 Mae gwiriadau cofnodion troseddol yn rhoi gwybodaeth sy'n helpu i benderfynu a yw myfyriwr neu ddarpar fyfyrwr yn addas i weithio gyda *Grwpiau Agored i Niwed*.
- 3.4 Mae'r polisi'n rhoi ymrwymiad i drin myfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr yn deg a chydag urddas a pharch, lle na wahaniaethir yn annheg yn erbyn unrhyw unigolyn ar sail cefndir troseddu neu am unrhyw reswm arall.
- 3.5 Bydd unigolion yn darparu gwybodaeth am gofnodion troseddol yn unig ar sail hawl gyfreithiol yn ymwneud â lefel cyswllt â *Grŵp Agored i Niwed*. Caiff gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cynnal hyd at 6 mis cyn dyddiad dechrau'r cwrs, i'r lefel briodol, ar gyfer unigolion sydd wedi derbyn cynnig o le ar *Raglen Berthnasol*, ac ar gyfer unigolion lle mae eu rhaglen neu fodiwl astudio yn cynnwys gweithgaredd sy'n dod â nhw i gysylltiad â *Grŵp Agored i Niwed*.
- 3.6 Bydd yn ofynnol i fyfyrwyr a chanddynt fynediad at *Grwpiau Agored i Niwed*, wrth wneud ymchwil, dilyn hyfforddiant neu astudio yn eu man gwaith arferol, gael gwiriad cofnodion troseddol. Y sefydliad cyflogi neu'r sefydliad gwirfoddol sy'n gyfrifol am gynnal y gwiriadau cofnodion troseddol yn unol â'u polisi eu hunain.
- 3.7 Rhaid i unigolion sydd wedi byw neu weithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig am 12 mis neu fwy pan oeddynt yn 10 oed neu'n hŷn gael gwiriad cofnod troseddol trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac, yn ychwanegol, rhaid i'r unigolyn hefyd gael gwiriadau cofnodion troseddol o'r gwledydd y maent wedi gweithio neu fyw ynddynt; mewn sefyllfaoedd lle nad yw'n bosibl neu'n ymarferol cael gwiriadau cofnodion troseddol ychwanegol gan y gwledydd y mae'r unigolyn wedi gweithio neu fyw ynddynt, bydd yr unigolyn yn darparu o leiaf ddau eirdd annibynnol am eu dilysrwydd proffesiynol a'u cymeriad.
- 3.8 Mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n medru mynd at *Grwpiau Agored i Niwed* tra byddant yn astudio neu'n gwneud ymchwil y tu allan i'r Deyrnas Unedig gydymffurfio â rheoliadau'r wlad y byddant ynddi. Lle bo'n berthnasol, bydd y Brifysgol hefyd yn cynnal gwiriad cofnodion troseddol ac, os bydd angen, yn gwirio Rhestr(au) Gwahardd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel bo'n briodol ar gyfer gweithio gyda *Grwpiau Agored i Niwed* yn y Deyrnas Unedig.
- 3.9 Pan ddatgelir cofnod troseddol neu wybodaeth berthnasol arall, cynullir Panel Achos i drafod y mater gyda'r unigolyn. Bydd y Panel Achos yn adolygu'r wybodaeth a roddir i lunio barn ynghylch p'un a ddylai natur y drosedd/troseddau, ac unrhyw adsefydlu dilynol, atal derbyn yr unigolyn ar y cwrs neu barhau arno. Gall y Panel Achos benderfynu nad yw'r unigolyn yn risg annerbyniol i *Grwpiau Agored i Niwed*, neu gall gyfeirio'r achos yn unol â'r weithdrefn ym mharagraff 4.6.
- 3.10 Ni fydd y Brifysgol yn caniatáu:
  - i unigolion a waharddwyd wneud *Gweithgaredd a Reoleiddir*;
  - i unigolyn wneud lleoliad neu ymchwil sy'n rhoi mynediad iddynt at Blant ac/neu Oedolion Agored i Niwed os credir eu bod yn risg annerbyniol i'r *Grŵp Agored i Niwed*;

- i unigolyn wneud lleoliad neu ymchwil sy'n rhoi mynediad iddynt at Blant ac/neu *Oedolion Agored i Niwed* os amheuir eu bod yn dal gwybodaeth yn ôl am eu record droseddol.
- 3.11 Gweithredir yn briodol pe gwneir honiad bod niwed wedi cael ei wneud i blentyn neu oedolyn agored i niwed yn deillio o gyswllt â myfyriwr, neu os amheuir niwed o'r fath.
- 3.12 Bydd y prospectws ar-lein a llenyddiaeth cyrsiau'n cyfeirio'n glir at yr angen i gael gwiriad am gofnodion troseddol fel bo'n briodol ar gyfer *Rhaglenni Perthnasol*.
- 3.13 Mae'r polisi'n rhoi ymrwymiad i gydymffurfio'n llawn â *Chod Ymarfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd*:  
<https://www.gov.uk/government/publications/dbs-code-of-practice>
- 3.14 Rhoddir gwybod i unigolion am y Polisi Cofnodion Troseddol a *Chod Ymarfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd* pan ofynnir iddynt wneud cais am wiriad cofnodion troseddol.
- 3.15 Bydd staff sy'n ymwneud â gwirio cofnodion troseddol yn cael canllawiau a hyfforddiant priodol.
- 3.16 Caiff gwybodaeth am gofnodion troseddol ei thrin yn gyfrinachol, ei chadw, ei defnyddio a'i gwaredu yn unol â pholisi'r Brifysgol, Deddf Diogelu Data 2018, *Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Chod Ymarfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd*.
- 3.17 Mae'r gofyniad i ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer swyddi neu staff sy'n gweithio gyda *Grwpiau Agored i Niwed* yn dod dan *Bolisi Gwiriadau Datgelu a Gwahardd* y Brifysgol.

## 4. Gweithdrefn

### 4.1 Cymhwyster a lefel gwiriad cofnodion troseddol

- 4.1.1 Cyn y gofynnir i unigolyn wneud cais am wiriad cofnodion troseddol mae angen gwirio cymhwystra dan y darpariaethau cyfreithiol presennol. Yn **Atodiad 5** ceir crynodeb o'r math neu'r lefel o wiriadau sy'n ofynnol ar gyfer *Rhaglenni Perthnasol*. Pan fo gweithgaredd sy'n dod ag unigolyn i gysylltiad â *Grŵp Agored i Niwed* yn rhan o raglen, modiwl neu broiect sydd heb eu cynnwys yn **Atodiad 5**, bydd y Rheolwr Gweinyddu Myfyrwyr (Lleoliadau, Cofnodion a Data) yn penderfynu pa lefel o wiriad cofnodion troseddol sy'n briodol mewn ymgynghoriad â goruchwyliwr neu diwtor y myfyriwr. Gwneir y penderfyniad hwn yn unol â'r canllawiau canlynol a ddarperir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;

- [A Guide to Child Workforce Roles for Registered Bodies and Employers](#)
- [A Guide To Adult Workforce Roles for Registered Bodies And Employers](#)
- [A Guide To Other Workforce Roles For Registered Bodies And Employers](#)

Gall fod yn ofynnol cael Datgeliad Sylfaenol ar gyfer myfyrwyr sy'n cyflawni gweithgareddau nad ydynt yn gymwys i gael Gwiriad Safonol neu Wirian Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, pan fo, oherwydd natur y gweithgaredd, yn rhesymol a chymesur cael gwybodaeth am euogfarnau troseddol sydd heb eu disbyddu.

Ni dderbynnir datgeliadau a wnaed ar ran cyrff neu sefydliadau eraill oni bai eu bod wedi ymrwymo i Wasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### 4.2 Cynnig lle ar Raglen Berthnasol

- 4.2.1 Pan gynigir lle i unigolyn ar *Raglen Berthnasol*, cânt eu hysbysu am y canlynol trwy lythyr:
1. Mae'r lle ar y cwrs yn amodol ar wiriad cofnodion troseddol boddhaol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (a chaiff lefel y gwiriad ei nodi).
  2. Gall rhybuddion amodol neu euogfarnau sydd heb eu disbyddu, yn ogystal ag unrhyw rybuddion oedolyn (syml neu amodol) neu euogfarnau sydd wedi eu disbyddu nad ydynt wedi'u diogelu fel y diffinnir gan Orchymyn (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2020 (Eithriadau) 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwy 1974, neu unrhyw wybodaeth

ychwanegol a ddatgelir gan yr Heddlu neu awdurdod arall arwain at dynnu'r cynnig yn ôl, yn amodol ar Bolisi a Chod Ymarfer Recriwtio a Derbyniadau Myfyrwyr.

3. Gall cadw gwybodaeth yn ôl am gofnodion troseddol arwain at dynnu'r cynnig yn ôl, yn amodol ar Bolisi a Chod Ymarfer Recriwtio a Derbyniadau Myfyrwyr, neu ar weithredu Gweithdrefn Disgyblu Myfyrwyr y Brifysgol.

4.2.2 Bydd unigolion sydd wedi byw neu weithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig am 12 mis neu fwy pan oeddent yn 10 oed a throsodd yn cael gwybod bod y lle ar y cwrs yn ddarostyngedig i wiriad cofnodion troseddol boddhaol neu dystysgrif ymddygiad da sy'n briodol i'r wlad y buont yn byw ynddi, yn ogystal â gwiriad cofnodion troseddol boddhaol trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

4.2.3 Rhoddir Ffurflen Hunanddatganiad Ymgeisydd pan fydd unigolyn yn cael cynnig lle ar *Raglen Berthnasol*.

4.2.4 Lle nodir rhybuddion presennol neu rybuddion sydd yn yr arfaeth ac euogfarnau ar Ffurflen Hunanddatganiad Ymgeisydd, caiff y mater ei gyfeirio at y Tiwtor Derbyniadau perthnasol..

- Yn achos ymgeiswyr i Raglenni Cyn-gofrestru'r Ysgol Gwyddorau Iechyd, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio wedyn at *Banel Achos* (gweler **Adran 4.6**).
- Yn achos rhaglenni eraill, bydd yr unigolyn yn cael datgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hyd at 6 mis cyn dyddiad dechrau'r cwrs, ac yna caiff yr achos ei gyfeirio at *Panel Achos* (gweler **Adran 4.6**).

Bydd cofrestrriad y myfyriwr yn aros fel un dros dro tra bo'n aros am benderfyniad y *Panel Achos*. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd y Tiwtor Derbyniadau yn mynnu bod y cofrestrriad yn cael ei ohirio tra bo'n aros am benderfyniad y *Panel Achos*.

### 4.3 Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

4.3.1 Bydd cyfarwyddiadau ynglŷn â phroses ymgeisio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hanfon at unigolion cyn dechrau ar *Raglenni Perthnasol*, neu ar gais tiwtor/goruchwyliwr yn achos myfyrwyr ar raglenni eraill. Ceir gwiriadau cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd trwy ddefnyddio un o'r gwasanaethau canlynol:

- Gwasanaeth corff ymbarél y Brifysgol
- Cais papur i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Cyn gwneud cais am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, rhaid i unigolyn naill ai fod wedi derbyn cynnig o le neu fod wedi cofrestru fel myfyriwr ym Mhrifysgol Bangor.

4.3.2 Gall ymgeiswyr trawsrywiol gysylltu â [Thîm Ceisiadau Sensitif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#) i gael mynediad at broses wirio gyfrinachol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os nad ydynt eisiau datgelu manylion am eu hunaniaeth flaenorol i Weinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### 4.4 Gwiriadau tu allan i'r Deyrnas Unedig

4.4.1 Ceir canllawiau gan y Swyddfa Gartref a chan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd am sut i wneud cais am wiriad cofnodion troseddol, neu wiriad cyffelyb, gan awdurdodau y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rhoi'r canllawiau sydd ar gael ar gyfer y wlad dan sylw i'r unigolyn. Pan fydd y gwasanaeth ar gael ar gyfer y wlad y maent yn preswyllo ynddi, bydd yr unigolyn hefyd yn cael yr opsiwn i ddefnyddio'r gwasanaeth i wirio cefndir dinasyddion tramor sydd ar gael trwy ddarparwr gwirio cofnodion troseddol y Brifysgol.

4.4.2 Yr unigolyn 'syn gyfrifol am wneud y cais priodol am wiriad cofnodion troseddol gogyfer â'r cyfnod y buont yn byw mewn gwlad arall ers iddynt fod yn 10 oed. Bydd yr unigolyn yn cael cyfieithiad ardystiedig o'r gwiriad cofnod troseddol. Cyfrifoldeb yr unigolyn yw cost y gwiriad cofnod troseddol a'r cyfieithiad ardystiedig.

- 4.4.3 Pan geir gwiriad yn uniongyrchol oddi wrth awdurdodau y tu allan i'r Deyrnas unedig, bydd yr unigolyn yn cyflwyno dogfen wreiddiol y gwiriad cofnod troseddol, y cyfieithiad ardystiedig ac un o'r dogfennau adnabod yn Grŵp 1 fel yr amlinellir yng nghanllawiau gwirio adnabyddiaeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- 4.4.4 Gan gyfeirio at Bwynt 4.4.2, pan nad oes modd cael gwiriad cofnod troseddol o'r wlad dan sylw, **neu** pan fo'r unigolyn yn ffoadur sydd â hawl i aros yn y Deyrnas Unedig, gwneir cais am o leiaf ddau eirida annibynnol yn ymwneud â chymwysterau proffesiynol a chymeriad yr unigolyn. Dylai'r geirdaon ateb cwestiynau penodol i helpu i asesu addasrwydd yr unigolyn i weithio â *Grwpiau Agored i Niwed*. Dylid cysylltu dros y ffôn neu drwy e-bost fel dilyniant i eiridaon o'r fath. Caiff pob achos o'r fath ei gyfeirio at y Tiwtor Derbyniadau perthnasol a fydd yn gorchwyllo'r camau gweithredu a gymerwyd. Ni ddylid derbyn geirdaon gan berthynas i'r ymgeisydd (mae hyn yn cynnwys partneriaid, perthnasau yng nghyfraith a llys-rieni) neu rywun sy'n ysgrifennu'n unig fel ffrind i'r ymgeisydd.
- 4.4.5 Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cofnodi manylion y gwiriad cofnodion troseddol, yn cynnwys enw'r awdurdod a'i darparodd, y dyddiad darparu, y dyddiad y daw i ben a'r cyfeirnod. Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedyn yn dilyn y camau gweithredu priodol wrth ymateb i wiriad cofnodion troseddol.
- 4.5 Ymateb i gofnod troseddol neu hunanddatganiad gydag euogfarnau, rhybuddion neu erlyniadau sydd yn yr arfaeth**
- 4.5.1 Bydd Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei anfon gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gyfeiriad cartref yr ymgeisydd. Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael mynediad at y canlyniadau fel a ganlyn:
- Gweld y canlyniad ar system ar-lein y corff ymbarél.
  - Gwneud cais i weld copi papur o'r datgeliad a anfonwyd at y myfyriwr yn achos ceisiadau papur i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
  - Edrych ar Wasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar-lein, gan wirio hefyd y datgeliad papur a anfonwyd at y myfyriwr.
- 4.5.2 Caiff ffurflenni hunanddatganiad yn cael eu llenwi gan:
- Ymgeiswyr sydd wedi derbyn cynnig o le ar *Raglen Berthnasol* yn ystod y broses dderbyniadau, a myfyrwyr a fydd yn ymgymryd â gweithgaredd sy'n gymwys am Wiriad Safonol neu Wiriad Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ystod eu rhaglen neu fodiwl.
  - Myfyrwyr ar *Raglenni Perthnasol* lle mae angen datganiad bob blwyddyn neu pan fo angen datganiad canol tymor gan Gydlynnydd Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yr Ysgol.
  - Myfyrwyr ar Raglenni Cyn-gofrestru'r Ysgol Gwyddorau Iechyd lle mae angen datganiad ar ddiwedd y cwrs.
  - Myfyrwyr sy'n ymgymryd â gweithgareddau lle mae angen Gwiriad Sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- 4.5.3 Pan fo datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yr hunanddatganiad a'r gwiriadau a gynhaliwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn glir:
- Mae gwiriad cofnodion troseddol yn glir os nad oes unrhyw dystiolaeth o euogfarnau neu rybuddion ac na ddatgelwyd unrhyw wybodaeth arall gan yr Heddlu na chan unrhyw awdurdod arall.
  - Caiff cofnod yr unigolyn ei ddiweddarau i ddangos bod y Weithdrefn Cofnodion Troseddol wedi'i chwblhau pan welir bod yr holl wiriadau cofnodion troseddol gofynnol yn glir ac, os oes angen, fod pob geirda mewn perthynas ag addasrwydd unigolyn i weithio gyda *Grwpiau Agored i Niwed* wedi eu derbyn a'u cael yn foddhaol.



- Lle bo'n berthnasol, caiff Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu ddogfen gyfatebol gan awdurdod tramor a'r cyfieithiad ardystiedig cysylltiedig, ei ddychwelyd at yr unigolyn.

#### 4.5.4

Pan fo datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, hunanddatganiad neu wiriad a gynhaliwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn dangos euogfarnau, rhybuddion neu erlyniadau sydd yn yr arfaeth:

- Mewn achosion lle datgelir gwybodaeth gan yr Heddlu neu awdurdod arall, neu lle gwelir bod geirda mewn perthynas ag addasrwydd unigolyn i weithio gyda *Grwpiau Agored i Niwed* yn anfoddfaol, caiff Panel Achos ei gynnwll.
- Yn achos Rhaglenni Cyn-gofrestru'r Ysgol Gwyddorau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol caiff Panel Achos ei gynnwll pan fo gwybodaeth wedi cael ei datgelu trwy hunanddatganiad cyn i wiriadau cofnodion troseddol gael eu cynnal.
- Mae'r diwygiadau i Orchymyn (Eithriadau) 1975 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (2013 a 2020) yn datgan bod rhai euogfarnau a rhybuddion yn cael eu hystyried yn 'warchoddedig'. Nid oes angen eu datgelu mewn hunanddatganiad gan unigolion y mae'n ofynnol iddynt gael Gwiriad Safonol neu Wiriad Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gan gynnwys y rhai ar *Raglenni Perthnasol*, ac os cânt eu datgelu ni fydd y Panel Achos yn eu hystyried.
- O dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, mae euogfarnau neu rhybuddion cymwys yn cael eu 'disbyddu' ar ôl cyfnod penodol o amser a elwir yn 'gyfnod adsefydlu', ac mae hyd y cyfnod hwnnw yn amrywio yn dibynnu ar sut y deliwyd â'r unigolyn. Nid oes angen eu datgelu mewn hunanddatganiad gan unigolion y mae'n ofynnol iddynt gael Gwiriad Sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac os cânt eu datgelu ni fydd y Panel Achos yn eu hystyried.
- Bydd rheolau hidlo'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hystyried gan y Cyfarwyddwr Cwrs/Arweinydd Rhaglen perthnasol a Chydlynnydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn yr Ysgol cyn i Banel Achos ystyried troseddau a gyflawnwyd y tu allan i'r Deyrnas Unedig.
- Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn anfon llythyr, yn gwahodd yr unigolyn i ddod i'r cyfarfod. Gofynnir i'r unigolyn ddarparu gwybodaeth gefndir am eu cofnod troseddol ac unrhyw ddogfennau eraill y gallant eu hystyried yn briodol. Gofynnir i'r unigolyn anfon y wybodaeth hon at Weinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn cyfarfod y Panel Achos.
- Bydd gan yr unigolyn hawl i ofyn i aelod o'r teulu, ffrind neu rywun arall fod yn bresennol yng nghyfarfod y Panel Achos; fodd bynnag, nid oes hawl i ddod â chynrychiolydd cyfreithiol i gyfarfod y Panel Achos. Bydd yr unigolyn yn rhoi gwybod ymlaen llaw i Weinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pwy fydd yn dod gydag ef/gyda hi i gyfarfod y Panel Achos.
- Yn ôl doethineb y Pennaeth Ysgol (neu rywun a ddirprwywyd ganddo/ganddi) ni wahoddir yr unigolyn i ddod i gyfarfod y Panel Achos mewn rhai amgylchiadau eithriadol.
- Bydd aelodau'r Panel Achos yn cael eu hysbysu ymlaen llaw pwy fydd yn bresennol.
- Caiff Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, neu ddogfen gyfatebol gan awdurdod tramor, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall a ddarperir gan yr unigolyn, eu cadw'n ddiogel gan Weinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mewn system ffeilio wedi'i chloi.

## 4.6 Cyfarfod Panel Achos

4.6.1 Bydd aelodaeth y Panel Achos fel rheol yn cynnwys Cydlynnydd Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yr Ysgol (neu enwebai) (Cadeirydd), y Cyfarwyddwr Cwrs/Arweinydd Rhaglen/Arweinydd Derbyniadau perthnasol (neu ddirprwy a / neu yr Arweinydd Proffesiynol lle bo hynny'n berthnasol), y tiwtor cwrs (lle bo hynny'n berthnasol) a Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gydag aelodau ychwanegol yn y rhaglenni isod:

- Cynrychiolwyr penodedig o'r Bwrdd Iechyd yn achos Rhaglenni Cyn-gofrestru'r Ysgol Gwyddorau Iechyd.
- Cydlynnydd Amddiffyn Plant yn achos Rhaglenni Perthnasol a gynhelir gan yr Ysgol Addysg.
- Uwch reolwr gwaith cymdeithasol yn cynrychioli un o'r awdurdodau lleol partner yn achos y Rhaglen MA Gwaith Cymdeithasol.

Cedwir cofnodion cyfarfod y Panel Achos gan Weinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

4.6.2 Bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r Panel Achos am y wybodaeth a ddatgelwyd gan ffurflen hunanddatganiad neu'r gwiriad cofnod troseddol. Bydd y Panel Achos yn derbyn y wybodaeth gefndir ac unrhyw ddogfennau eraill a ddarparwyd gan yr unigolyn.

4.6.3 Gwahoddir yr unigolyn i ddod i mewn i gyfarfod y Panel Achos a rhoddir cyfle iddo/iddi i egluro cefndir y wybodaeth a ddatgelwyd gan y gwiriad cofnod troseddol. Bydd y Panel Achos yn cwestiynu'r unigolyn ar sail ei (h)eglhurhad.

Gofynnir i'r unigolyn adael y cyfarfod a bydd y Panel Achosion wedyn yn ystyried y ffactorau canlynol:

- y graddau y mae'r ddedfryd, neu unrhyw fater arall ar record droseddol yr unigolyn, yn berthnasol i'r cwrs ac/neu'r lleoliad;
- difrifoldeb y drosedd neu unrhyw fater arall;
- yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r drosedd neu unrhyw fater arall ddigwydd;
- p'un a oes gan yr unigolyn batrwm o ymddygiad troseddol neu faterion perthnasol eraill;
- p'un a yw amgylchiadau'r unigolyn wedi newid ers adeg y drosedd neu faterion perthnasol eraill;
- natur yr amgylchiadau perthnasol i'r drosedd a'r eglurhad a roddwyd gan yr unigolyn.
- a oedd yr unigolyn yn agored a gonest ynghylch ei (g)orffennol ac wedi datgan gwybodaeth berthnasol lle bo angen

4.6.4 Ar sail yr uchod, mae'n rhaid i'r Panel Achos ddewis un o'r opsiynau canlynol:

- Penderfynu na ddylid rhwystro'r unigolyn rhag cofrestru ar y cwrs neu barhau arno. Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn diweddarau cofnodion yr unigolyn i ddangos bod y Drefn Cofnodion Troseddol yn gyflawn.
- Gohirio penderfyniad am hyd at 28 diwrnod yn y man cyntaf ar y sail bod angen gwybodaeth bellach, ac yn yr achos hwnnw efallai y bydd y Panel yn gofyn am atal astudiaethau neu ohirio mynediad i'r cwrs am hyd at 12 mis.
- Yn achos ymgeiswyr, argymell i'r Pennaeth Derbyniadau y dylid dileu'r cais a thynnu cynnig o le yn ôl, lle bo hynny'n berthnasol, yn unol â *Pholisi a Chod Ymarfer Recriwtio a Derbyniadau Myfyrwyr*. Nid oes gan yr unigolyn yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i argymell i'r Pennaeth Derbyniadau y dylid dileu'r cais a, lle bo'n briodol, y dylid tynnu'r cynnig i astudio yn ei ôl.
- Yn achos myfyrwyr ar *Raglenni Perthnasol*, cyfeirio'r mater i'w ystyried dan pa bynnag Weithdrefn Addasrwydd / Ffitrwydd i Ymarfer sy'n berthnasol. Ni fydd y Panel Achos yn trafod y mater ymhellach â'r unigolyn ar hyn o bryd. Nid oes gan yr unigolyn hawl i apelio'n erbyn y penderfyniad i'w cyfeirio am ystyriaeth dan y Weithdrefn Addasrwydd/Ffitrwydd i Ymarfer.

- Yn achos myfyriwyr ar raglenni eraill, cyfeirio pryderon ynghylch y myfyriwr at Bennaeth yr Ysgol gan argymhell bod y pryderon yn cael eu cyfeirio at Swyddog Disgyblu i'w hystyried dan weithdrefnau disgyblu'r Brifysgol. Ni fydd y Panel Achos yn trafod y mater ymhellach â'r unigolyn ar hyn o bryd. Nid oes gan yr unigolyn hawl i apelio'n erbyn y penderfyniad i'w cyfeirio at Swyddog Disgyblu i'w hystyried dan weithdrefnau disgyblu'r Brifysgol.
- 4.6.5 Yn achos Rhaglenni *Cyn-gofrestru'r* Ysgol Gwyddorau Iechyd bydd Asesiad Risg yn cael eu cwblhau gan y Panel Achos ac yn cael ei adolygu gyda chynrychiolwyr dynodedig y Bwrdd Iechyd neu ddarparwr lleoliad. Bydd asesiadau risg yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd fel sy'n ofynnol gan y Panel Achos.
- 4.6.6 Pan fydd y Panel Achos wedi cwblhau ei drafodaethau, gofynnir i'r unigolyn ddod yn ôl i mewn i'r cyfarfod a bydd y Cadeirydd yn ei hysbysu am benderfyniad y Panel Achos.
- 4.6.7 Gwneir yn glir i'r unigolyn y gwneir gwiriadau ynglŷn â'u cofnod troseddol yn y dyfodol os byddant yn ymgeisio am rai swyddi. Gwneir yn glir mai cyfrifoldeb pob darpar gyflogwr a/neu gorff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol fydd gwneud eu penderfyniad eu hunain ynghylch addasrwydd yr unigolyn i'w gyflogi/chyflogi. Ni fydd y Panel Achos yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr ddatgelu gwybodaeth am eu cofnod troseddol i drydydd parti.
- 4.6.8 Bydd yr holl bapurau cyfrinachol a ddogfenwyd i'r Panel Achos yn cael eu rhoi'n ôl i Weinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ddiwedd y cyfarfod. Caiff Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, neu ddogfen gyfatebol gan awdurdod tramor a'r cyfieithiad ardystiedig cysylltiedig, eu dychwelyd i'r unigolyn.
- 4.6.9 Caiff llythyr yn cadarnhau penderfyniad y Panel Achos ei anfon at yr unigolyn o fewn 5 diwrnod gwaith.
- 4.7 Hysbysu Darparwyr Lleoliadau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA).**
- 4.7.1 Pan fydd y Weithdrefn Cofnodion Troseddol wedi'i chwblhau, darparwr y lleoliad sy'n gyfrifol am ofyn i'r athro dan hyfforddiant am gael gweld eu Datgeliad gwreiddiol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Os bydd angen, bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cadarnhau bod yr athro dan hyfforddiant wedi cael gwiriad cofnodion troseddol a'i fod wedi'i farnu i fod yn addas i weithio gyda Phlant.
- 4.7.2 Pan nad yw'r Weithdrefn Cofnodion Troseddol wedi'i chwblhau erbyn dyddiad dechrau'r lleoliad, hysbysir darparwr y lleoliad na ddylai'r athro/athrawes dan hyfforddiant fynychu'r lleoliad nes bod y darparwr yn derbyn cadarnhad gan y Brifysgol bod y Weithdrefn Cofnodion Troseddol wedi ei chwblhau.
- 4.7.3 Pan gwblheir y Weithdrefn Cofnodion Troseddol ar ôl dyddiad dechrau lleoliad, bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cysylltu â'r darparwr lleoliad, o fewn pum diwrnod gwaith, i roi gwybod iddynt bod yr athro/athrawes dan hyfforddiant bellach wedi cwblhau'r Weithdrefn Cofnodion Troseddol a bod modd iddynt fynychu'r lleoliad.
- 4.7.4 Cynghorir darparwyr lleoliadau i gysylltu â Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os oes arnynt angen unrhyw wybodaeth bellach. Ni ddarperir copi o Ddatgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i ddarparwyr lleoliadau ac ni fydd y Brifysgol yn rhannu gwybodaeth a geir mewn Datgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gydag unrhyw drydydd parti.
- 4.7.5 Bydd gan ddarparwyr lleoliadau fynediad at bolisi a gweithdrefnau cofnodion troseddol a chod ymarfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar-lein.
- 4.7.6 Pan fydd lleoliad am ddeng diwrnod neu lai, rhoddir datganiad cyffredinol o wybodaeth i'r myfyriwr ar gyfer y darparwr lleoliad. Bydd y wybodaeth hon yn egluro'r Weithdrefn Cofnodion Troseddol, gan gyfeirio at y cyngor perthnasol o'r Ysgol Gynradd neu Ysgol Uwchradd berthnasol. Bydd gan ddarparwyr lleoliadau fynediad at bolisi a gweithdrefnau cofnodion troseddol a chod ymarfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn y tudalennau gwe

perthnasol. Darparwr y lleoliad fydd yn gyfrifol am ofyn i'r myfyrwyr am gael gweld eu Datgeliad gwreiddiol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

#### **4.8 Hysbysu darparwyr lleoliadau eraill (heblaw AGA)**

- 4.8.1 Ni chysylltir â'r darparwr lleoliad ynghylch statws y Weithdrefn Cofnodion Troseddol; mae cyrsiau o'r fath yn cynnwys Rhaglenni Cyn-gofrestru'r Ysgol Gwyddorau Iechyd, Meddygaeth, MSc Cwnsela, BA/MA Astudiaethau Plentynod ac Ieuencid ac MA Gwaith Cymdeithasol.
- 4.8.2 Bydd gan ddarparwyr lleoliadau fynediad at bolisi a gweithdrefnau cofnodion troseddol a chod ymarfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar-lein.

#### **4.9 Gweithdrefn os na dderbynnir gwiriadau Cofnodion Troseddol cyn dechrau lleoliad ar Raglenni Perthnasol**

- 4.9.1 Rhaid i'r Weithdrefn Cofnodion Troseddol fod wedi ei chwblhau cyn dechrau lleoliad. Ni fydd Myfyrwyr yn gallu dechrau ar eu lleoliad nes bod y Weithdrefn Cofnodion Troseddol wedi ei chwblhau'n foddhaol.
- 4.9.2 Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn hysbysu'r Cyfarwyddwr Cwrs/Arweinydd Rhaglen perthnasol o statws gwiriadau cofnodion troseddol y myfyrwyr sydd
- 4.9.3 wedi eu cofrestru ar eu cwrs.  
Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd y Cyfarwyddwr Cwrs/yr Arweinydd Rhaglen yn gofyn i ohirio astudiaethau hyd nes y cwblheir y gwiriadau cofnodion troseddol.

#### **4.10 Cyflogaeth / Rhaglenni yn y Gwaith ac Ymchwil**

- 4.10.1 Mae'n rhaid i fyfyrwyr a chanddynt fynediad at *Grwpiau Agored i Niwed* tra bônt yn gwneud ymchwil, yn dilyn hyfforddiant neu'n astudio yn eu man gwaith arferol, fod wedi cael gwiriad cofnodion troseddol boddhaol.
- 4.10.2 Bydd y cyflogwr neu'r sefydliad gwirfoddol yn gwneud y gwiriad cofnod troseddol yn unol â'u polisi a'u gweithdrefnau eu hunain. Y cyflogwr neu'r sefydliad gwirfoddol sy'n penderfynu a yw myfyriwr neu ddarpar fyfyriwr yn addas ar gyfer gweithio gyda grwpiau agored i niwed.
- 4.10.3 Ni ddylai'r cyflogwr neu sefydliad gwirfoddol anfon copi o'r datgeliad at Weinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac ni all rannu unrhyw wybodaeth a geir yn Natgeliad y
- 4.10.4 Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.  
Mae'n rhaid i fyfyrwyr a chanddynt fynediad at *Grwpiau Agored i Niwed* tra bônt yn dilyn y cwrs Presgripsiynu Annibynnol fod wedi cael gwiriad cofnodion troseddol boddhaol i gyflawni gweithgaredd a reoleiddir. Cyflogwr y myfyriwr neu'r darpar fyfyriwr fydd yn gwneud y gwiriad cofnodion troseddol yn unol â'u polisi a'u gweithdrefnau eu hunain. Y cyflogwr sy'n penderfynu a yw myfyriwr neu ddarpar fyfyriwr yn addas ar gyfer gweithio gyda grwpiau agored i niwed. Bydd y cyflogwr yn hysbysu'r Brifysgol yn ysgrifenedig bod y myfyriwr wedi cael gwiriad cofnodion troseddol gan gynnwys Gwiriad Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ynghyd â gwirio yn erbyn y Rhestrau Gwahardd a'u bod yn addas i weithio gyda grwpiau agored i niwed.

#### **4.11 Myfyrwyr sy'n troseddu tra maent yn y Brifysgol**

- 4.11.1 Rhaid i fyfyrwyr y mae'n ofynnol iddynt gael gwiriad cofnod troseddol i gael eu derbyn i raglen astudio, neu yn ystod eu rhaglen astudio, ddatgan ar unwaith wrth Gydlynnydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r Cyfarwyddwr Cwrs/Arweinydd Rhaglen, unrhyw euogfarn, rhybudd, cerydd neu rybudd gan yr Heddlu a roddwyd iddynt, neu sydd ar ddod iddynt, tra eu bod yn fyfyrwyr.
- 4.11.2 Ymdrinnir â thystiolaeth o unrhyw euogfarn neu rybudd a roddwyd i fyfyriwr yn unol â'r *Polisi a Gweithdrefnau Cofnodion Troseddol*, a chaiff y myfyriwr ei atal o'r lleoliad ac efallai yr ystyrir y

mater gan Banel Achos. Cyfeirir troseddau difrifol yn syth at y Cofrestrudd Academaidd (neu ei enwebai) gydag argymhelliad bod y dystiolaeth yn cael ei hystyried dan y Rheoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr.

#### **4.12 Amau Twyll Hunaniaeth**

- 4.12.1 Os amheuir bod unigolyn wedi cyflwyno gwybodaeth ffug ynghylch pwy ydyw, neu ddogfennau ffug, bydd y broses ymgeisio yn cael ei hatal. Rhoddir gwybod am y twyll a amheuir i Ysgrifennydd y Brifysgol a hefyd i'r awdurdodau yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- 4.12.2 Os amheuir twyll hunaniaeth ar ôl cyflwyno cais i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, bydd Cydlynnydd Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yr Ysgol yn cysylltu â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

#### **4.13 Cadw Gwybodaeth yn Ôl**

- 4.13.1 Pan fydd unigolyn yn cadw gwybodaeth yn ôl am ei gofnod troseddol bydd yn cael ei atal rhag ymgymryd â lleoliad neu ymchwil sy'n rhoi mynediad at *Grwpiau Agored i Niwed* a chyfeirir y mater at Ysgrifennydd y Brifysgol ac mewn rhai achosion, gall hyn arwain at derfynu cofrestrriad yr unigolyn ar y rhaglen.

#### **4.14 Anghydfod ynghylch Datgeliadau**

- 4.14.1 Gall unigolyn herio cynnwys Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os yw'n cynnwys gwall neu wybodaeth anghywir neu amherthnasol. Dylai'r unigolyn gysylltu â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn syth ac o fewn 3 mis i ddyddiad darparu'r Datgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- 4.14.2 Nid yw'r Weithdrefn Cofnodion Troseddol wedi'i chwblhau nes bydd yr anghydfod wedi'i ddatrys. Yn ôl doethineb y Pennaeth Ysgol perthnasol, os yw'r Datgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y mae anghydfod yn ei gylch yn cyfeirio at faterion yn ymwneud â gweithio gyda Grwpiau Agored i Niwed, gellir atal y myfyriwr rhag gwneud ei leoliad nes bydd y Weithdrefn Cofnodion Troseddol wedi'i chwblhau.

#### **4.15 Atgyfeiriadau at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

- 4.15.1 Dylid gwneud atgyfeiriadau at Ysgrifennydd y Brifysgol am ystyriaeth ar lefel y Brifysgol pan gredir bod person wedi niweidio plentyn neu oedolyn agored i niwed, wedi rhoi plentyn neu oedolyn agored i niwed mewn perygl o ddiodef niwed, neu yn peri risg o niwed i Grwpiau Agored i Niwed. Gellir atgyfeirio wedyn at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unol â darpariaethau cyfreithiol cyfredol. Mae gan staff y Brifysgol ddyletswydd i gyfeirio pryderon perthnasol at Ysgrifennydd y Brifysgol pan fo'r amodau ar gyfer cyfeirio'r mater at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi eu bodloni.

#### **4.16 Hyd dilysrwydd gwiriad cofnodion troseddol**

- 4.16.1 Nid oes dyddiad dod i ben i Ddatgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac nid oes angen gwiriadau ychwanegol yn ystod rhaglen, gan gynnwys rhaglenni sy'n para mwy na phedair blynedd, oni bai bod myfyriwr yn destun pryder, neu oni bai ei bod yn ofynnol i ni gynnal gwiriad newydd yn unol â chanllawiau sector-benodol.
- 4.16.2 Bydd angen i fyfyrwyr sy'n gadael y rhaglen am chwe mis neu fwy gael gwiriad newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y gallant ail-gofrestru.
- 4.16.3 Efallai y bydd gofyn i fyfyrwr sy'n symud i raglen arall, er ei fod wedi cwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ym Mhrifysgol Bangor o'r blaen, gwblhau gwiriad newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn iddo/iddi ail-gofrestru.

## **5. Ffioedd**

- 5.1 Cyfrifoldeb y myfyriwr neu'r darpar fyfyrwr yw darparu'r ffi briodol i gael datgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac, os yw'n berthnasol, gwiriad cofnodion troseddol y tu allan i'r Deyrnas Unedig ar adeg gwneud y cais.

## **6. Polisiâu a Gweithdrefnau Perthnasol Prifysgol Bangor**

- 6.1 Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â pholisïau a gweithdrefnau canlynol y Brifysgol:
- Polisi Diogelu Data
  - Amserlen Cadw Cofnodion a Data'r brifysgol
  - Polisi Archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
  - Polisi ynglŷn â Diogelwch, Storïo a Chadw Datgeliadau Ymgeiswyr / Staff / Datganiad Polisi Gwybodaeth Cofnodion Troseddol ar Recriwtio Cyn-droseddwyr
  - Polisi a Chod Ymarfer Recriwtio a Derbyniadau Myfyrwyr.
  - Gweithdrefn Addasrwydd/Ffitrwydd i Ymarfer
  - Ordinhad ar Ddisgyblu Myfyrwyr
  - Polisi Diogelu
  - Cyfle Cyfartal

## **7. Adolygu**

- 7.1 Caiff y polisi hwn ei adolygu bob tair blynedd, neu'n gynt os bydd angen, er mwyn cydymffurfio â newidiadau mewn deddfwriaeth, trefn neu gyfarwyddyd gan yr awdurdodau perthnasol.

## **ATODIAD 1 Diffiniadau a Therminoleg**

**Gweithlu Oedolion:** Swyddi sy'n ymwneud yn benodol â gweithio gydag oedolion.

**Rhestrau Gwahardd:** Rhoddir rhai a ystyrir yn anaddas i weithio gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar un neu ar ddwy restr wahardd:

- Rhestr Wahardd Rhag Gweithio â Phlant
- Rhestr Wahardd Rhag Gweithio ag Oedolion

**Gwiriad Sylfaenol** - mae hwn yn dangos manylion euogfarnau a rhybuddion amodol yr ystyrir eu bod 'heb eu disbyddu' o dan delerau Deddf Adsefydlu Troseddwy 1974. Gellir defnyddio'r gwiriad sylfaenol at unrhyw ddiben, fodd bynnag ar gyfer rhai rolau bydd angen lefel uwch o wirio cofnodion troseddol.

**BACP:** Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain

**BASW:** Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain

**Panel Achos:** Bydd aelodaeth y Panel Achos fel rheol yn cynnwys Cydlynnydd Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yr Ysgol (neu enwebai) (Cadeirydd), y Cyfarwyddwr Cwrs/Arweinydd Rhaglen perthnasol (neu ddirprwy a / neu yr Arweinydd Proffesiynol lle bo hynny'n berthnasol), y tiwtor cwrs (lle bo hynny'n berthnasol) a Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gydag aelodau ychwanegol ar gyfer rhai rhaglenni.

**Gweithlu Plant:** Swyddi sy'n ymwneud yn benodol â gweithio gyda phlant.

**Plentyn:** Plentyn yw unrhyw un dan 18 oed.

**Cyd-lofnodwr:** Mae cyd-lofnodwr yn rhywun o fewn Corff Cofrestredig sydd wedi'i gofrestru gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gydlofnodi ceisiadau, a gwneud datganiad bod y swydd yn gymwys ar gyfer wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y gofynnwyd amdano.

**DBS:** Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

**Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:** Mae Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gweithio o fewn yr Adran Gweinyddu Myfyrwyr ac yn gweinyddu gwiriadau cofnodion troseddol a chyfarfodydd panel

**Rhestr Wahardd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** Y 'rhestr wahardd rhag gweithio â phlant' a'r 'rhestr wahardd rhag gweithio ag oedolion' yw rhestrau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o unigolion sy'n anaddas i weithio gyda phlant ac oedolion.

**Cydlynnydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:** Mae gan Gydlynnydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mewn ysgolion academaidd drosolwg dros wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chyfarfodydd y Panel Achos

**Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:** Y term a ddefnyddir i ddisgrifio'r ddogfen a roddir i'r ymgeisydd pan fo gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael ei gwblhau.

**Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:** Gwiriad am gofnodion troseddol a gaiff ei brosesu drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

**Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:** Mae'r gwasanaeth diweddarau yn wasanaeth ar-lein, ar gyfer gwiriadau safonol a gwiriadau manylach yn unig, sy'n caniatáu i ymgeiswyr gadw eu tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol a galluogi cyflogwyr i weld tystysgrif ymgeisydd. Ar hyn o bryd ni ellir defnyddio'r gwasanaeth diweddarau ar gyfer gwiriadau sylfaenol.

**Datgeliad:** Y term a ddefnyddir i ddisgrifio'r gwasanaeth a ddarperir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Gwiriad manylach gyda gwiriad yn erbyn y rhestr wahardd:** Mae'r gwiriad hwn gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yr un fath â gwiriad manylach, ond mae hefyd yn cynnwys gwiriad yn erbyn rhestrau gwahardd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Gwiriad manylach:** Mae hwn yn dangos yr un pethau â gwiriad safonol ynghyd ag unrhyw wybodaeth a gedwir gan heddlu lleol a ystyrir yn berthnasol i'r rôl. Mae hyn yn berthnasol i rolau penodol, neu'r gweithgareddau penodol a gyflawnir o fewn rôl, sydd wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn (Eithriadau) 1975, Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 ac sydd hefyd yn dod o dan Reoliadau (Cofnodion Troseddol) Deddf yr Heddlu 1997.

**EWC:** Cyngor y Gweithlu Addysg

**FPA:** Faculty of Physician Associates

**GPC:** Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

**HCPC:** Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

**AGA:** Addysg Gychwynnol Athrawon

**Cyrsiau AGA:** Cyrsiau sy'n arwain at statws athro cymwysedig (SAC)

**Cyrsiau Cyn-gofrestru'r Ysgol Gwyddorau Iechyd:** Rhaglenni Nyrsio BN, PGDip ac MSc, BSc Radiograffeg Ddiagnostig, BM Bydwreigiaeth, DipHE Hylandid Deintyddol, MSc/PGDip Ffisiotherapi.

**Prif Gyd-lofnodwr:** Yr unigolyn mewn corff cofrestredig a fydd yn goruchwyllo proses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o fewn eu sefydliad.

**NMC:** Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Gweithlu 'Arall':** Pobl nad ydynt yn gweithio'n benodol gyda phlant neu oedolion ond a allai weithio gyda'r ddau.

**PNC:** Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu

**SAC:** Statws Athro Cymwysedig

**RCA:** Coleg Brenhinol y Meddygon

**Corff Cofrestredig:** Ni all unigolion wneud cais am eu gwiriadau eu hunain, dim ond cyflogwr neu recriwtiwr all wneud cais i fod yn Gorff Cofrestredig, ac a all gyflwyno ceisiadau i'w gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Gweithgaredd a reoleiddir:** Mae gweithgaredd a reoleiddir yn waith na ddylai person sydd wedi ei wahardd ei wneud, ac eithrio unrhyw weithgaredd a wneir fel rhan o berthynas deuluol, a pherthynas bersonol, anfasnachol. Diffinnir gweithgaredd a reoleiddir yn Neddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed (Pennod 47) Llywodraeth EM (2006) ac yn amodol i ddiwygiadau yn Neddf Diogelu Rhyddid (Pennod 1) Llywodraeth EM (2012).

**Gweithgaredd a reoleiddir gydag oedolion:** Mae'r [Rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 \(Cofnodion Troseddol\) \(Diwygio\) 2013/1194](#) yn darparu diffiniad deddfwriaethol o waith gydag oedolion, ac mae [nodyn ffeithiol yr Adran Iechyd](#) yn darparu diffiniad o weithgaredd a reoleiddir gydag oedolion.

**Gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant:** Mae'r [Rheoliadau Deddf yr Heddlu 1997 \(Cofnodion Troseddol\) \(Diwygio 2\) 2013/2669](#) yn darparu diffiniad deddfwriaethol o waith gyda phlant, ac mae [nodyn ffeithiol yr Adran Addysg](#) yn darparu diffiniad o weithgaredd a reoleiddir gyda phlant.

**Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974:** Mae hyn yn galluogi rhai euogfarnau troseddol i gael eu hanwybyddu ar ôl cyfnod adsefydlu, gan roi'r hawl i bobl ag euogfarnau a rhybuddion sydd wedi eu disbyddu beidio â'u datgelu wrth wneud cais am y rhan fwyaf o swyddi. Gweler [Canllawiau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ynghylch Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974](#).



**Rhaglen Berthnasol:** Rhaglen lle bydd myfyriwr neu hyfforddai'n cael mynediad at *Grwpiau Agored i Niwed*.

**GCC:** Gofal Cymdeithasol Cymru

**Gwiriad safonol:** Mae hwn yn dangos euogfarnau a rhybuddion sydd wedi eu disbyddu a heb eu disbyddu, yn amodol ar hidlo. Mae hyn yn berthnasol i swyddi, proffesiynau, cyflogaeth, gweithgareddau, a thrwyddedau sydd wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn (Eithriadau) 1975, Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, fel y'i diwygiwyd.

**Oedolion agored i niwed:** Oedolyn yw rhywun 18 oed a hyn. Ystyrir oedolyn yn hawdd ei niweidio yn ystod yr amser y mae arnynt angen gwasanaethau, yn cynnwys: gofal iechyd; gofal personol; gofal cymdeithasol; cymorth gydag arian, biliau a siopa; cymorth i ymdrin â'u busnes a chludiant (cludiant yn ymwneud â darpariaeth gofal iechyd, personol neu gymdeithasol).

**Grwpiau agored i niwed:** Plant ac Oedolion Agored i Niwed.

## **ATODIAD 2 Cyhoeddiadau a Deddfwriaeth Allweddol**

### **Ysgol Gwyddorau Iechyd**

- GPC (2019). *Standards for the education and training of pharmacist independent prescribers*. London: GPC.
- GPC (2017). *Standards for pharmacy professionals*. London: GPC.
- HCPC (2016). *Standards of conduct, performance and ethics*. London: HCPC. (Section 9.5).
- HCPC (2017). *Standards of education and training*. London: HCPC. (Section 2.4).
- HCPC (2018). *Standards of education and training*. London: HCPC. (SET 2).
- HCPC (2010) *Guidance on conduct and ethics for students*. London: HCPC.
- HCPC (2012) *Guidance on health and character*. London: HCPC.
- HCPC (2008) *Standards of conduct, performance and ethics*. London: HCPC.
- NMC (2019) *Draft: Standards for pre-registration midwifery programmes*. London: NMC.
- NMC (2018). *The Code: Professional standards of practice and behaviour for nurses, midwives and nursing associates*. London: NMC. (Section 23.2).
- NMC (2018). *Rhan 1: Standards framework for nursing and midwifery education*. London: NMC. (Section 1.2-1.4).
- NMC (2018) *Part 3: Standards for pre-registration nursing programmes*. London: NMC.
- NMC (2018) *Quality Assurance Handbook*. Version 9. Cambridge: Mott MacDonald.
- NMC (2010) *Guidance on conduct and ethics for nursing and midwifery students*. London: NMC.
- NMC (2008) *The Code: Standards of conduct, performance and ethics for nurses and midwives*. London, NMC.COT (2010) *Code of Ethics and Professional Conduct, Performance*. London: COT.

### **Ysgol Addysg**

- Cyngor y Gweithlu Addysg [Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol](#)

### **Deddfwriaeth Gyffredinol**

- Children Act 1989 London: The Stationery Office.
- Criminal Justice and Court Services Act (2000) (s.35 and 36)
- Criminal Records Bureau (2001) Code of Practice and Explanatory Guide for Registered Persons and other recipients of Disclosure Information. DBS:
- Department of Health (2000) No Secrets: Guidance on Developing and Implementing Multi-Agency Policies and Procedures to Protect Vulnerable Adults From Abuse. London: The Stationery Office.
- Health Inspectorate Wales (2010) Safeguarding and Protecting Vulnerable Adults in Wales A review of the arrangements in place across the Welsh National Health Service. Caerphilly: Health Inspectorate Wales.
- Department of Health (2012) Regulated activity (adults) The definition of 'regulated activity' (adults) as defined by the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006 from 10th September 2012. London, DH.
- Police Act (Part V) 1997 London: The Stationery Office.
- Protection of Children Act 1999 (s.6) London: The Stationery Office.
- Rehabilitation of Offenders Act 1974 London: The Stationery Office.
- [Safeguarding Vulnerable Groups Act Chapter 47 2006](#) London: The Stationery
- Data Protection Act 2018

## **ATODIAD 3      Gwe-ddolenni**

### **Gwe-ddolenni Llywodraeth y Deyrnas Unedig:**

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

<https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service>

Codau Ymarfer y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

<https://www.gov.uk/government/publications/dbs-code-of-practice>

Canllawiau'r DBS ar gymhwysedd, y Gweithlu Plant, y Gweithlu Oedolion, y Gweithlu 'Arall' a chanllawiau'r Adran Addysg ar sgôp Gweithgaredd Rheoledig mewn perthynas â Phlant:

<https://www.gov.uk/government/publications/dbs-check-eligible-positions-guidance>

Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd:

<https://www.gov.uk/dbs-update-service>

Canllawiau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar wirio hunaniaeth:

<https://www.gov.uk/government/publications/dbs-identity-checking-guidelines>

Canllawiau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar hidlo:

<https://www.gov.uk/government/collections/dbs-filtering-guidance>

Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar y broses ymgeisio am wiriadau cofnodion troseddol dramor:

<https://www.gov.uk/government/publications/criminal-records-checks-for-overseas-applicants>

Manylion cyswllt llysgenadaethau tramor yn y Deyrnas Unedig:

<https://www.gov.uk/government/publications/foreign-embassies-in-the-uk>

Canllawiau i gyflogwyr ar wiriadau cofnodion troseddol:

<https://www.gov.uk/dbs-check-requests-guidance-for-employers>

Sgôp Gweithgaredd Rheoledig mewn perthynas ag oedolion:

<https://www.gov.uk/government/publications/new-disclosure-and-barring-services>

Canllawiau statudol: Goruchwylio gweithgaredd gyda phlant sy'n weithgaredd a reoleiddir pan fydd heb oruchwyliaeth:

<https://www.gov.uk/government/publications/supervision-of-activity-with-Children>

Canllawiau statudol: Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu plant:

<https://www.gov.uk/government/publications/working-together-to-safeguard-Children--2>

Canllawiau statudol: Cadw plant yn ddiogel mewn addysg:

<https://www.gov.uk/government/publications/keeping-Children-safe-in-education--2>

Cyngor Adran Addysg San Steffan: Ymarferwyr diogelu: cyngor ynghylch rhannu gwybodaeth:

<https://www.gov.uk/government/publications/safeguarding-practitioners-information-sharing-advice>

Cyngor Adran Addysg San Steffan: Beth i'w wneud os ydych chi'n poeni bod plentyn yn cael ei gam-drin:

<https://www.gov.uk/government/publications/what-to-do-if-youre-worried-a-child-is-being-abused--2>

## **Gwe-ddolenni Prifysgol Bangor:**

Polisi Prifysgol Bangor ynghylch Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd  
<https://www.bangor.ac.uk/humanresources/policies/recruitment/DBS%20Policy%20CY.pdf>

Polisi Prifysgol Bangor ar Ddiogelu  
<https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/safeguarding.php.cy>

Polisi Prifysgol Bangor ar Ddiogelu Data:  
<https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/datafreedom.php.cy>

Gweithdrefn Terfynu Astudiaethau, Rheoliadau Academaidd a Chodau Ymarfer Prifysgol Bangor:  
<https://www.bangor.ac.uk/regulations/index.php.cy>

Rheoliad Prifysgol Bangor ar Ddisgyblu Myfyrwyr  
<https://www.bangor.ac.uk/regulations/regulations/reg21.php.cy>

## **ATODIAD 4 Dulliau gwneud cais i'r DBS**

### **Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Gall unigolion sydd wedi ymuno â Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ddefnyddio eu Datgeliad presennol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chymryd ei fod ar gyfer y gweithlu priodol a'i fod ar lefel wirio briodol, yn cynnwys gwiriad yn erbyn rhestr wahardd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os oes angen. Rhaid cael caniatâd yr unigolyn cyn defnyddio Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i wneud gwiriad statws. Rhaid bod hawl cyfreithiol gan y Brifysgol i gael y wybodaeth a geir yn Natgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn cynnwys gwiriad yn erbyn rhestr wahardd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os yn berthnasol.

i gael arweiniad o ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gweler

- [DBS Update Service - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/guidance/db-update-service)
- [DBS Update Service: employer guide - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/guidance/db-update-service-employer-guide)

Bydd yr unigolyn yn cyflwyno dogfen wreiddiol y gwiriad cofnodion troseddol ac un o'r dogfennau adnabod yn Grŵp 1 fel yr amlinellir yng [nghanllawiau gwirio adnabyddiaeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#).

Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn defnyddio'r ddogfen adnabod i gadarnhau bod Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn eiddo i'r unigolyn. Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gwirio bod Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y gweithlu priodol a'i fod ar lefel wirio briodol, yn cynnwys gwiriad yn erbyn rhestr wahardd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os oes angen.

Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn edrych ar Wasanaeth Diweddarau ar-lein y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i wirio statws Datgeliad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yr unigolyn.

Mae tri chanlyniad posibl:

- Ni wnaeth Tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ddatgelu unrhyw wybodaeth ac mae'n parhau'n gyfredol gan na nodwyd unrhyw wybodaeth bellach ers ei dyroddi.
- Mae Tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn parhau'n gyfredol gan na nodwyd unrhyw wybodaeth bellach ers ei dyroddi.
- Nid yw'r Dystysgrif hon gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol mwyach. Gwnewch gais am wiriad newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cofnodi cyfeirnod Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, dyddiad dyroddi'r Datgeliad a'r dyddiad y defnyddiwyd Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dilyn y camau gweithredu priodol ar gyfer ymateb i wiriad cofnodion troseddol.

### **Cais Ar-lein i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Bydd unigolion yn gwneud cais ar-lein am Ddatgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan ddefnyddio gwasanaeth corff ymbarél y Brifysgol. Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dechrau y gwiriad ar wefan y corff ymbarél. Bydd yr unigolyn yn gwneud gwiriad adnabyddiaeth digidol, yn mynd â thystiolaeth adnabod i Swyddfa'r Post i'w ddilysu (canghennau sy'n cymryd rhan yn unig) neu at Weinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, fel y bo'n berthnasol. Mae'r unigolyn yn talu'r tâl priodol

am y gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gellir olrhain y cais i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn defnyddio gwefan y corff ymbarél.

Mae Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn edrych ar ganlyniad y gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar-lein. Mae dau ganlyniad posibl:

- Mae'r gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn glir. Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cofnodi cyfeirnod y Datgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r dyddiad dyroddi. Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dilyn y camau gweithredu priodol ar gyfer ymateb i wiriad cofnodion troseddol.
- Nid yw'r gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn glir. Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cofnodi cyfeirnod y Datgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r dyddiad dyroddi. Gofynnir i'r unigolyn ddod â'u Datgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Weinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dilyn y camau gweithredu priodol ar gyfer ymateb i wiriad cofnodion troseddol.

Ar hyn o bryd dim ond trwy gyfrwng y Saesneg mae gwefan y corff ymbarél ar gael. Cynghorir myfyrwyr sydd eisiau gwneud cais am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd trwy gyfrwng y Gymraeg i gysylltu â Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### **Cais papur i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cyfeirio'r unigolyn at Gyngor Gwynedd sy'n darparu ffordd o wneud cais papur i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd yr unigolyn yn llenwi ffurflen gais y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn rhoi'r ffurflen a'r dogfennau adnabod i Weinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gofynnir i unigolion na allant ddarparu'r dogfennau adnabod angenrheidiol i fynd i gael cymryd olion eu bysedd yn eu swyddfa heddlu leol. Mae'r unigolyn yn talu'r tâl priodol am y gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd y Cyd-lofnodwr yn llofnodi'r ffurflen gais a'i hanfon at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gellir dilyn hynt y cais i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar-lein drwy ddefnyddio Gwasanaeth Olrhain y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn anfon y Datgeliad i gyfeiriad cyfredol yr unigolyn.

Bydd yr unigolyn yn cyflwyno eu Datgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i Weinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Bydd Gweinyddwr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cofnodi cyfeirnod y Datgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r dyddiad dyroddi ac yn dilyn y camau priodol ar gyfer ymateb i wiriad cofnodion troseddol.

**ATODIAD 5 Crynodeb ynghylch math a lefel y gwiriadau sy'n ofynnol ar gyfer pob Rhaglen Berthnasol**

Rhaglen	Corff statudol / rheoleiddiol	Corff proffesiynol	Lefel Gwiriad	Gwaha rddiad Plant	Gwaha rddiad Oedolion	Hunanddatganiad
<b>Ysgol Addysg</b>						
BA Addysg Gynradd	Cyngor y Gweithlu Addysg	Cyngor y Gweithlu Addysg	Manylach	Ydy	Nac ydy	Adeg mynediad ac yn flynyddol
TAR Cynradd	Cyngor y Gweithlu Addysg	Cyngor y Gweithlu Addysg	Manylach	Ydy	Nac ydy	Adeg mynediad ac yn flynyddol
TAR Uwchradd	Cyngor y Gweithlu Addysg	Cyngor y Gweithlu Addysg	Manylach	Ydy	Nac ydy	Adeg mynediad ac yn flynyddol
MA Astudiaethau Addysg (llawn-amser 15m)			Manylach	Ydy	Nac ydy	Adeg mynediad ac yn flynyddol
BA Astudiaethau Plentynod ac Ieuenctid			Manylach	Ydy	Nac ydy	Adeg mynediad ac yn flynyddol
MA Plentynod ac Ieuenctid			Manylach	Ydy	Nac ydy	Adeg mynediad ac yn flynyddol
MA Cerddoriaeth ac Addysg			Manylach	Ydy	Nac ydy	Adeg mynediad ac yn flynyddol
<b>Ysgol Gwyddorau Iechyd</b>						
BN, PGDip ac MSc Nyrsio, pob maes, llawn amser a rhan amser.	NMC	NMC	Manylach	Ydy	Ydy	Adeg mynediad, yn flynyddol ac ar ddiwedd y cwrs
BM Bydwreigiaeth	NMC	NMC	Manylach	Ydy	Ydy	Adeg mynediad, yn flynyddol ac ar ddiwedd y cwrs
BSc Radiograffeg Ddiagnostig	HCPC	HCPC	Manylach	Ydy	Ydy	Adeg mynediad ac yn flynyddol
MA Gwaith Cymdeithasol	SCW	BASW	Manylach	Ydy	Ydy	Adeg mynediad ac yn flynyddol
Dychwelyd i Ymarfer Nyrsio a Bydwreigiaeth	NMC	NMC	Manylach	Ydy	Ydy	Adeg mynediad, yn flynyddol ac ar ddiwedd y cwrs
DipHE Hylendid Deintyddol	Cyngor Deintyddol Cyffredinol	Cyngor Deintyddol Cyffredinol	Manylach	Ydy	Ydy	Adeg mynediad, yn flynyddol ac ar ddiwedd y cwrs
MSc/PGDip Ffisiotherapi	CSP	CSP	Manylach	Ydy	Ydy	Adeg mynediad ac yn flynyddol
<b>Ysgol Feddygol Gogledd Cymru</b>						
MSc Astudiaethau Cydymaith Meddyg	RCP	FPA	Manylach	Ydy	Ydy	Adeg mynediad ac yn flynyddol

Meddygaeth (BMBS) blwyddyn 1 a myndiad graddedig	Cyngor Meddygol Cyffredinol	Cyngor Meddygol Cyffredinol	Manylach	Ydy	Ydy	Adeg mynediad ac yn flynyddol
<b>Ysgol Seicoleg a Gwyddor Chwaraeon</b>						
MSc Cwnsela		BACP	Manylach	Ydy	Ydy	Cyn, canol a diwedd lleoliad
Dip/CNSL Cwnsela Plant a Phobl Ifanc		BACP / NCPS	Manylach	Ydy	Ydy	Cyn, canol a diwedd lleoliad

Sylwer fod **Atodiad 5** yn gallu newid ac efallai na fydd yn rhestru'r holl *Raglenni Perthnasol*